# CAIS AM ARTIST

Bydd y Gwobrau Cymunedau Bywiog yn dathlu rhagoriaeth ym myd chwaraeon a diwylliant yn Sir Ddinbych. Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yn Theatr Pafiliwn y Rhyl ar 13eg Tachwedd 2024.

## Ynglŷn â Hamdden Sir Ddinbych

Gweledigaeth ac amcanion ein cwmni ni yw canolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd hamdden hygyrch o ansawdd uchel sy'n denu lefelau uchel o gyfranogiad a gwella lles trigolion ac ymwelwyr Sir Ddinbych.

Mae'n ddyletswydd arnom ni i greu rhagor o weithgarwch drwy ein cyfleusterau sy'n arwain at wella lles pobl, a chyflawni targedau ar gyfer twf gweithgareddau ac incwm. Rydym ni wedi ymrwymo yn yr un modd i gefnogi cymunedau cryfach ac iachach drwy ein gweithgareddau Cymunedau Bywiog, yn ogystal â mynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol y mae angen ymyrraeth briodol ac arbenigol arnynt.
Mae tair elfen bwysig a phenodol i Hamdden Sir Ddinbych - Ein Cymuned, Ein Pobl ac Ein Busnes, ac mae'r rhain yn dylanwadu ar y ffordd yr ydym ni'n gweithio a pham y crëwyd y Cwmni. Caiff y Cwmni ei gydnabod am ei gyfraniad gwerthfawr i'n cymunedau, y ffordd mae'n gweithio â'i bartneriaid a busnesau eraill, ac yn bwysicach fyth, y ffordd y mae'r Cwmni yn gofalu am ei weithlu a'i ddatblygu.
Trefnodd Hamdden Sir Ddinbych y Gwobrau Cymunedau Bywiog cyntaf ym mis Tachwedd y llynedd. Yn y gorffennol mae'r sefydliad hefyd wedi trefnu Gwobrau Chwaraeon Cymunedol Sir Ddinbych yn flynyddol a gynhaliwyd yn hanesyddol ym Mhafiliwn Llangollen.

Dyma ddigwyddiad mawreddog sydd yn dathlu cymuned Sir Ddinbych a'r bobl sy'n byw yma. Bydd sylw arbennig yn cael ei roi i unigolion sydd wedi gwneud gwahaniaeth neu wedi cyflawni rhywbeth ym myd chwaraeon neu weithgarwch corfforol, y celfyddydau a diwylliant.
Bydd mwy na phedwar cant o westeion, partneriaid a busnesau lleol yn dod i'r digwyddiad mawreddog hwn yn Theatr Pafiliwn y Rhyl yn ogystal â phawb sydd wedi'u henwebu am wobrau a'u teuluoedd.

Mae Hamdden Sir Ddinbych yn dymuno comisiynu artist proffesiynol neu artist sydd ar fin cychwyn gyrfa i greu deuddeg o dlysau a fydd yn cael eu cyflwyno i enillwyr pob categori.
Bydd cyfanswm o £3,000 yn cynnwys TAW yn cael ei dalu am y comisiwn hwn. Bydd y tâl yn mynd tuag at holl gostau'r gwaith dylunio, deunyddiau, cynhyrchu, pecynnu a chludiant.

HamddenSirDdinbych Cymunedau Bywiog

# CAIS AM ARTIST

## Meini prawf ar gyfer y dyluniad:

- Dylai'r tlysau fod yn unigryw ac yn addas i ddathlu llwyddiant cymunedau Sir Ddinbych ym myd chwaraeon a diwylliant;
- Dylai'r tlysau fod yn ddeniadol ac o werth i'r rhai sy'n eu derbyn, a dylen nhw fod yn addas i'w harddangos yng nghartrefi'r enillwyr neu eu clybiau nhw;
- Dylai'r deuddeg o dlysau fod yn debyg o ran arddull ond nid oes yn rhaid iddyn nhw fod yn union yr un fath â'i gilydd;
- Dylai'r tlysau fod yn rhwydd i'w harddangos yn y seremoni ac yn ddigon bach ac ysgafn i allu eu cyflwyno a'u cario nhw'n gyfforddus. Os bydd eich cynnig yn dlws, plât neu blac dylai fod rhwng 9-14 modfedd o uchder. Rydym hefyd yn croesawu dyluniadau 2D fel printiau gwreiddiol wedi'u fframio - gall y rhain fod yn fwy o ran maint ond eto yn hawdd i'w cario.
- Rydym yn croesawu cyflwyniadau ym mhob cyfrwng h.y. printiau wedi'u fframio, paentiadau, cerameg, llechan, gwydr, metel ac ati.
- Dylid darparu deunydd pacio â phob tlws fel bod modd i'r enillydd ei gludo;
- Mae'n rhaid i bob tlws gynnwys ymadrodd fel 'Gwobrau Cymunedau Bywiog Hamdden Sir Ddinbych 2024 / DLL Active Communities Awards 2024' yn ddwyieithog.
- Dyma'r 12 categorïau'r gwobrau:
  - Gwirfoddolwr y Flwyddyn
  - Ysgol Gynradd y Flwyddyn
  - Ysgol Uwchradd y Flwyddyn
  - Hyfforddwr Chwaraeon y Flwyddyn
  - Clwb Chwaraeon y Flwyddyn
  - Tîm y Flwyddyn
  - Prosiect Celfyddydau i Wella Lles Gorau
  - Prosiect Creadigol Cymunedol Gorau
  - Ysbrydoliaeth Ifanc
  - Gwobr Rhagoriaeth - Person Ifanc
  - Gwobr Rhagoriaeth - Oedolion
  - Cyflawniad Oes

- Gellir cynnwys yr ymadrodd yn nyluniad y tlws ei hun neu'i osod ar blinth os yw hynny'n fwy addas;
- Mae'n rhaid danfon y tlysau i gyd erbyn 28 Hydref 2024 fan bellaf. Bydd angen i chi feithrin cyswllt â Hamdden Sir Ddinbych yn ystod y broses ddylunio a darparu enghraifft neu brototeip ddechrau'r haf (dyddiad i'w gadarnhau gyda'r ymgeisydd llwyddiannus).
- Mae'n rhaid i'r artist fod yn fodlon cydweithio â Hamdden Sir Ddinbych ar unrhyw gyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig â'r comisiwn;
- Mae'r comisiwn ar agor i artistiaid sy'n byw ac/neu'n gweithio yn Sir Ddinbych neu artistiaid sy'n hanu'n wreiddiol o Sir Ddinbych ond sydd bellach yn byw/gweithio yn rhywle arall.

# CAIS AM ARTIST

Os oes gennych chi ragor o gwestiynau am y briff hwn, mae croeso i chi ffonio Sian Fitzgerald, Rheolwr Celfyddydau Cymunedol, ar 01824 708216 / 07717540857 neu anfon e-bost at sian.fitzgerald@denbighshireleisure.co.uk

Mae'n rhaid cyflwyno cynigion yn ysgrifenedig gan gynnwys darlun/darluniau o'r tlws erbyn hanner dydd, ddydd Llun, 15 Gorffennaf 2024. Ni chynigir tâl am gyflwyno cynnig.

Gellir anfon cynigion drwy ebost at:
activecommunities@denbighshireleisure.co.uk

neu drwy'r post i:
Denbighshire Leisure Ltd
Uned A8-11
Trem y Dyffryn
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 5TX

Fel arall, gellir anfon cynigion ar e-bost at
sian.fitzgerald@denbighshireleisure.co.uk